Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Dyffryn Conwy
Ffordd Nebo
Llanrwst
Conwy
LL26 0SD

09/02/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2026

Diolch am eich cefnogaeth gyda'n hymweliad interim ar 14 ac 15 Ionawr 2026. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion. Roedd yn ddiddorol iawn clywed am y gwaith gwella mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad diwethaf yn Ionawr 2019.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfleoedd:

- i drafod eich prosesau hunanwerthuso a gwella gydag aelodau'r uwch dîm arwain yn ogystal ag ychydig o arweinwyr canol
- i drafod y gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i ddatblygu medrau darllen disgyblion ar draws y pynciau
- siarad â grŵp o ddisgyblion o flynyddoedd 7 – 11 a chlywed eu hadborth am yr ysgol
- arsylwi gwersi, rhai ar y cyd ag aelodau'r uwch dîm arwain
- craffu ar waith disgyblion Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella ansawdd, miniogrwydd ac uchelgais y prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

Roedd yn ddiddorol clywed am y datblygiadau yn yr ysgol i finiogi'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Clywsom am yr ystod eang o weithgareddau arfarnu yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a holi barnau disgyblion a rhieni. Ymddengys bod yr uwch dîm arwain wedi miniogi'r modd maent yn

casglu tystiolaeth uniongyrchol o ran y cynnydd a wna’r disgyblion yn y gwersi ac effaith eu systemau bugeiliol ar eu lles. Mae’r broses ‘craffu 360°’ yn sicrhau bod pob athro yn cael ei gynnwys yn y broses hunanarfarnu. Mae’r prosesau hyn yn caniatáu i arweinwyr ar bob lefel  adnabod y cryfderau a’r meysydd i’w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae cynllunio’r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau clir a pherthnasol. Mae’r cynllunio hwn yn cynnwys gweithredoedd penodol, trefniadau monitro synhwyrol a meini prawf llwyddiant priodol.

Byddai’n ddefnyddiol i’r ysgol ystyried:

- Os yw’r prosesau arsylwi yn canolbwyntio’n ddigonol ar yr addysgu
- Os oes cysylltiad digon amlwg rhwng gweithredoedd penodol a’r deilliannau dymunol
- I ba raddau mae’r cynllunio yn sicrhau atebolrwydd cadarn?

## Sut mae’r ysgol yn hyrwyddo medrau darllen disgyblion?

Yn ystod yr ymweliad, roedd yn ddefnyddiol clywed sut mae arweinwyr wedi rhoi cryn bwyslais ar ddatblygu medrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae ‘Gwefan Medrau’ lle mae arweinwyr wedi rhannu gwybodaeth allweddol ac adnoddau er mwyn cefnogi staff i ddarparu ar gyfer y medrau. Clywsom am sut mae athrawon wedi elwa o hyfforddiant ar strategaethau y gallan nhw eu defnyddio i gefnogi disgyblion i wella eu medrau darllen. O ganlyniad, maent wedi treialu nifer o ddulliau, gan gynnwys mynd ati i addasu a chyflwyno testunau darllen mwy heriol yn eu meysydd dysgu.

O'r sampl o waith a welwyd a'r gwersi yr ymwelwyd â nhw, gwelsom bod athrawon yn dechrau defnyddio’r dull 'Darllen deallus’. Mae’r strategaeth hon yn rhoi pwyslais defnyddiol ar bwysigrwydd geirfa berthnasol, ac yn fodd i feithrin annibyniaeth a dycnwch ymysg disgyblion wrth fynd ati i weld a darllen testun am y tro cyntaf. Yn ein cyfarfod gyda’r disgyblion, fe wnaethon nhw siarad yn gadarnhaol am y datblygiad hwn. Roedd hefyd yn galonogol clywed y disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu hoff awduron.

Roedd yn ddiddorol clywed am y ffordd mae arweinwr yn adnabod y disgyblion hynny sydd angen cymorth gyda darllen yn gynnar ac yn darparu ymyraethau ar gyfer gwella hyder disgyblion i ddarllen ar goedd. Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu datblygu diwylliant darllen ar draws yr ysgol. Maent wedi mynd ati i hyrwyddo pwysigrwydd a manteision darllen er pleser. Er enghraifft, yr her ddarllen ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 ac 8 a’r cyflwyniadau gan ambell athro yn sôn am eu hoff lyfrau yn y gwasanaethau boreol ar gyfer disgyblion iau yr ysgol. Clywsom hefyd am y modd mae’r ysgol yn mynd ati i roi arweiniad i rieni ar sut i gefnogi a hybu eu plant i ddarllen yn y cylchlythyr ‘Rhannu’.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried i ba raddau mae athrawon ym mhob adran yn deall eu rôl wrth hyrwyddo a datblygu medrau darllen disgyblion?

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad. Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan.

Yn gywir

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro